

**DYMA**  
*dy le*

1872 PRIFYSGOL  
**ABERYSTWYTH**  
UNIVERSITY

# *Canllaw Clirio*

## 2018



LLINELL  
GYMORTH  
CLIRIO:

**0800**  
**121 4080**



# Clirio: Egluro'r broses

**Mae Clirio'n gyfle i chi i ystyried eich opsiynau os nad ydych wedi cael lle mewn prifysgol ym mis Medi.** Defnyddiwch ein canllaw i helpu i'ch rhoi ar ben y ffordd ynglŷn â'r broses Glirio ac i ddod o hyd i'r cwrs sy'n iawn i chi.

## Beth yw Clirio?

Clirio yw'r broses lle y gall darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gynigion ar hyn o bryd ddod o hyd i gyrsiau mewn prifysgol lle mae lleoedd ar gael. Cafodd tua 60,000 o ymgeiswyr le drwy'r broses Glirio y llynedd. Mae gan Brifysgol Aberystwyth nifer cyfyngedig o leoedd gwag Clirio ar gael ar draws y Brifysgol gyfan.


## Ydw i'n gymwys ar gyfer y broses Glirio?

Cewch ddefnyddio'r broses Glirio:

- os gwnaethoch gais ar ôl 30 Mehefin 2018
- os gwnaethoch gais cyn 30 Mehefin 2018 ond na chawsoch yr un cynnig (neu os na chawsoch gynnig roeddech eisiau ei dderbyn)
- os na wnaethoch fodloni amodau eich cynnig ac os na chawsoch le yn y prifysgolion oedd yn ddewis cadarn ac yn ddewis yswiriant i chi

## Dwi'n meddwl fy mod i wedi gwneud yn well na'r disgwyl

Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi gwneud yn well na'r disgwyl, efallai y gallech ddefnyddio'r broses Addasu i ddewis cwrs arall. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan UCAS.



# Pam Aberystwyth?

THE SUNDAY TIMES  
THE SUNDAY TIMES  
CANLLAW  
PRIFYSGOLION  
DA  
2018  
PRIFYSGOL  
Y FLWYDDYN  
AR GYFER  
ANSAWDD DYSGU

## Y rhesymau gorau dros ddewis Prifysgol Aberystwyth

Prifysgol y Flwyddyn y DU am

### ✓ ANSAWDD Y DYSGU

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times & Sunday Times 2018)

### ✓ SICRUYDD O LETY

Rydym yn gwarantu lle i chi yn ein llety, gan gynnwys Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon, sy'n werth £125 y flwyddyn, yn RHAD AC AM DDIM os dewiswch fyw yn llety'r Brifysgol ym mis Medi eleni.

### ✓ GWOBR AUR

yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwr 2018 (FfRHA 2018)

✓ 91%

Prifysgol Gorau yng Nghymru o ran bodlonrwydd cyffredinol y myfyrwr (ACF 2017)

✓ 95%

o'n graddedigion mewn gwaith neu astudiaethau pellach 6 mis ar ôl graddio (HESA 2017)

Ymhlith

### ✓ 5 PRIFYSGOL ORAU'R FLWYDDYN

yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwr WhatUni 2018

✓ 95%

o ymchwil y Brifysgol o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol (FfRhY 2014)

Aberystwyth yw'r lle

### ✓ MWYAF DIOGEL

i fod yn fyfyrwr yng Nghymru  
(Complete University Guide, 2017)

LLINELL  
GYMORTH  
CLIRIO: **0800**  
**121 4080**





# Camau y Broses Glirio

Os ydych yn poeni am eich canlyniadau, dechreuwch chwilio am gyrsiau eraill nawr er mwyn bod yn barod ar gyfer y broses Glirio.

## 1. Canlyniadau

- **Yn ôl y disgwyl:** Os yw eich lle wedi'i gadarnhau gan brifysgol, fyddwch chi ddim yn mynd drwy'r broses Glirio
- **Yn well na'r disgwyl:** Gallech ddefnyddio'r broses Addasu i ddewis cwrs arall
- **Ddim cystal â'r disgwyl neu heb gynigion:** Mae'n bryd i chi gychwyn ar y broses Glirio a dod o hyd i'r cwrs sy'n iawn i chi


## 2. Gwefan UCAS

- Ewch i [www.ucas.com](http://www.ucas.com) ac edrych ar 'UCAS Track.' Os nad oes gennych gynigion, fe welwch eich rhif clirio yma.
- Bydd UCAS yn diweddarau rhestr y cyrsiau sy'n dal i gynnig lleoedd. Does dim rhaid i chi gadw at y cwrs y gwnaethoch ei ddewis yn wreiddiol. Mae rhagor o wybodaeth am gyrsiau Aberystwyth ar gael yn [www.aber.ac.uk/clirio](http://www.aber.ac.uk/clirio)
- Paratowch i siarad â phrifysgolion. Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn agor llinell ffôn arbennig ar gyfer y broses Glirio ar fore diwrnod y canlyniadau. Bydd angen eich canlyniadau arnoch, eich rhif personol UCAS, y cwrs yr hoffech ei astudio, eich cyfeiriad e-bost a phapur a phensel wrth law.
- Ar brynhawn diwrnod y canlyniadau Safon Uwch cewch wneud cais i'r brifysgol rydych wedi'i dewis drwy ddewis 'Add Clearing Choice' ar UCAS Track.
- Cadwch lygad ar wefan UCAS hyd nes y bydd y Brifysgol yn cadarnhau eich lle

## 3. Beth nesaf?

- Beth am fynd i ymweld â'r brifysgol rydych wedi'i ddewis?
- Cofiwch hefyd drefnu eich Cyllid Myfyrwyr a'ch Llety

LLINELL  
GYMORTH  
CLIRIO:  
**0800**  
**121 4080**





# Cwestiynau Cyffredin



- C** Ble mae cael hyd i leoedd drwy'r broses Glirio?
- A** Bydd y lleoedd sydd ar gael yn cael eu diweddarau ar wefan UCAS ac ar wefan unigol pob prifysgol. I weld y wybodaeth ddiweddaraf, rydym yn argymhell eich bod yn ffonio'r brifysgol yn uniongyrchol. Yn Aberystwyth, mae nifer gyfyngedig o leoedd Clirio ar gael ar draws y Brifysgol gyfan.
- C** Sawl cynnig gaf i?
- A** Cewch siarad â chynifer o brifysgolion ag y mynnwch a chael cynifer o gynigion ag y mynnwch. Ond dim ond **un** cais Clirio y cewch ei gyflwyno drwy UCAS.
- C** Sut bydd fy nghynnig Clirio'n cael ei gadarnhau?
- A** Pan ychwanegwch eich dewis ar wefan UCAS, bydd y brifysgol yn cadarnhau eich lle ar UCAS 'Track'. Does dim angen i chi ymateb i'r cynnig.
- C** Os nad wyf yn bodloni amodau fy nghynnig, a yw hynny'n golygu'n awtomatig na chaf le?
- A** Nac ydy. Chwiliwch ar UCAS 'Track' neu ffoniwch y brifysgol yn uniongyrchol. Efallai y bydd rhai prifysgolion yn cadarnhau eich lle hyd yn oed os yw eich canlyniadau'n is na'r disgwyl.

LLINELL  
GYMORTH  
CLIRIO: **0800**  
**121 4080**





# Llety

Mae digonedd o ddewis o lety prifysgol ar gael, ond efallai y bydd llai o ddewis adeg y broses Glirio. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig siop un stop ar gyfer llety myfyrwyr sef [www.aberstudentpad.co.uk](http://www.aberstudentpad.co.uk) ac rydym yn gwarantu llety a reolir gan y Brifysgol i bob ymgeisydd Clirio.







# Lle alla'i fyw?

## Llety'r Brifysgol

Mae neuaddau preswyl yn ffordd wych o gwrdd â phobl yn syth bin. Yn Aberystwyth, bydd tîm Bywyd y Campws wrth law i'ch croesawu. Mae ystod o ddewisiadau ar gael ar gyfer pob cyllideb, a dyw'r rhan fwyaf o'r neuaddau fawr o dro o'r Campws. Yn Aberystwyth, does dim angen i chi boeni am gostau amrywiol biliau, oherwydd mae ein ffoedd llety'n cynnwys costau cyfleustodau, cysylltiad â'r we a lefel uchel o yswiriant cynnwys personol. Mae dewis o lety cyfrwng Cymraeg i'w gael yma hefyd.

## Llety Preifat

Dewis gwych er mwyn cwrdd â phobl o wahanol gyrsiau a grwpiau blwyddyn. Mae llawer o brifysgolion yn cynnig arweiniad ynghylch llety'r sector preifat. Mae ein Swyddfa Llety'n cynnig gwasanaeth i'ch cynghori ynghlŷn â'r sector preifat os ydych yn ystyried y math hwn o lety.

## Byw Gartref

Os yw'r brifysgol rydych wedi'i dewis yn agos at eich cartref gallech ystyried cymudo. Gallai hynny fod yn ffordd dda o arbed arian tra byddwch yn y brifysgol.

Ewch i [www.aber.ac.uk/llety](http://www.aber.ac.uk/llety) i gael gwybod am y gwahanol fathau o lety sydd ar gael ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Rydym yn cynnig llety a reolir gan y Brifysgol i bob myfyriwr sy'n gwneud cais drwy'r broses Glirio ynghyd ag Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon yn RHAD AC AM DDIM.





# Cyllid Myfyrwyr

Mae ffioedd israddedigion yn cael eu cyhoeddi ar wefannau prifysgolion. Mae benthyciadau a grantiau'r Llywodraeth ar gyfer ffioedd a chostau byw ar gael yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Am fwy o wybodaeth ewch i [www.aber.ac.uk/cy/undergrad/fees-finance/loans](http://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/fees-finance/loans)

## Wedi gwneud cais am fenthyciad ond mae eich gwybodaeth wedi newid oherwydd y broses Glirio?

Bydd angen i chi ddiweddarau eich manylion ymgeisio. Os ydych yn byw yng Nghymru gallwch wneud hyn yn [www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk), neu drwy fewngofnodi i'r corff cyllido perthnasol os ydych yn byw yn rhywle arall.

## Wedi gwneud cais drwy'r broses Glirio ond heb wneud cais am fenthyciad eto?

Er bod y dyddiadau cau swyddogol wedi mynd heibio, cewch wneud cais o hyd. Efallai na fydd y corff cyllido'n gallu prosesu eich cais erbyn dechrau'r cwrs, ond peidiwch â phoeni, fe wnaiff yn siŵr bod arian ar gael i chi mor agos â phosib at ddechrau'r cwrs.

## Benthyciad Cynhaliaeth Myfyrwyr

Bwriedir i'r benthyciad cynhaliaeth helpu i dalu am gostau byw fel bwyd, rhent a llyfrau. Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar incwm eich aelwyd deuluol a ble y byddwch yn byw tra byddwch yn y brifysgol. Mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciad hwn ar ôl i chi offren eich astudiaethau, ond nid cyn i'ch cyflog gyrraedd lefel benodol. Mae'n cymryd peth amser i gwblhau'r broses a bydd angen i'ch rhieni neu warcheidwaid ddarparu rhywfaint o wybodaeth hefyd.

## Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau

Gallai myfyrwyr y broses Glirio yn Aberystwyth hefyd fod yn gymwys i gael ein Bwrsariaeth Aber - sy'n werth £500 y flwyddyn!

LLINELL  
GYMORTH  
GLIRIO:

0800  
121 4080



# Dewch i ymweld â ni

Mae'n syniad da mynd i Ddiwrnod Ymweld Clirio os ydych yn gwneud cais i brifysgol nad ydych wedi ymweld â hi o'r blaen. Er bod Diwrnodau Ymweld Clirio fel arfer yn llai o lawer na'r prif Ddiwrnodau Agored, fe fydd y rhan fwyaf yn cynnig cyfle i chi i gwrdd â myfyrwyr, holi am y cwrs a chael taith o amgylch y campws, y llety a'r dref neu'r ddinas.

Cynhelir cyfres o Ddiwrnodau Ymweld Clirio yma ar gampws Prifysgol Aberystwyth rhwng dydd Gwener 17 a dydd Gwener 24 Awst. Gallwch archebu lle ar [www.aber.ac.uk/clirio](http://www.aber.ac.uk/clirio). Os na allwch ddod i Ddiwrnod Ymweld, rydym hefyd yn cynnal teithiau o amgylch y campws ac mae teithiau rithwir o amgylch y campws, gan gynnwys ein llety, ar gael ar ein gwefan.





# Cysylltiadau Defnyddiol

Cewch wybod mwy am Brifysgol Aberystwyth ar

**[www.aber.ac.uk](http://www.aber.ac.uk)** neu ffoniwch ein

**llinell ffôn Clirio ar 0800 121 40 80**

Gwefannau defnyddiol eraill:

**[www.ucas.com](http://www.ucas.com)**

**[www.thestudentroom.co.uk](http://www.thestudentroom.co.uk)**

Cofrestrwch i glywed y diweddaraf am y broses Glirio yn Aberystwyth yma **[www.aber.ac.uk/clirio](http://www.aber.ac.uk/clirio)**

Ebost: [clirio@aber.ac.uk](mailto:clirio@aber.ac.uk)



Facebook | [/Prif.Aberystwyth](https://www.facebook.com/Prif.Aberystwyth)



Twitter | [@Prifysgol\\_Aber](https://twitter.com/Prifysgol_Aber)



YouTube | [/prifysgolaberystwyth](https://www.youtube.com/prifysgolaberystwyth)

*Aeth y cyhoeddiad hwn i'w argraffu ym mis Gorffennaf 2018, a gallai hynny fod dros ddwy flynedd cyn i chi ddechrau eich cwrs. Mae pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir. Er hynny, gan fod ein cysiau a'n gwasanaethau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd, efallai y bydd rhai manylion yn newid. Awgrymw'n eich bod yn edrych ar ein gwefan [www.aber.ac.uk](http://www.aber.ac.uk) i gael y wybodaeth ddiweddaraf*